YSGOL GYFUN
GWENT
IS COED

# Adroddiad Blynyddol i rieni
# Annual Report to parents
# 2022-2023

**Pennaeth / Headteacher: Eirian Jones**
**Cadeirydd / Chair: Kate Olsen**
**Is-Gadeirydd / Vice-chair: Steve Denton**

Hyd y tyf hadau teg

# Neges gan Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mrs Kate Olsen



Annwyl Rhiant/Gwarcheidwad,
Mae gen i bleser mawr i ysgrifennu fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd Ysgol Gwent Is-Coed, ac am flwyddyn! Blwyddyn i ddathlu llwyddiant ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Symudodd y disgyblion a'r staff i'r adeilad newydd ar Ddydd Llun y 23ain o Ionawr. Mae'n ofod hyfryd ac mae'r dysgwyr yn dangos parch mawr tuag ato. Mae'r adeilad yn ymgorffori bloc gwyddoniaeth o'r radd flaenaf ynghyd ag ystafelloedd dosbarth amlbwrpas a all addasu i weddu i anghenion dysgwyr. Hefyd mae gan y disgyblion neuadd drawiadol a fydd yn darparu gofod addas i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau perfformio.

Parhaodd yr ysgol i wneud cynnydd cryf tuag at y Cwricwlwm i Gymru. Ar y 27ain o Chwefror, cynhaliwyd diwrnod HMS mewn partneriaeth a ysgolion cynradd y clwstwr. Daeth holl aelodau staff y clwstwr i YGGIC am y diwrnod. Derbyniodd cymorthyddion dosbarth hyfforddiant arbenigol a bu'r athrawon yn gweithio ar gynllunio'r cwricwlwm newydd gan ganolbwyntio ar ddilyniant a'r continwwm dysgu o un cyfnod i'r llall. Prif ffocws yr ysgol oedd ar Wyddoniaeth a Thechnoleg, y Dyniaethau a Lles ac Iechyd. Cynhaliwyd diwrnodau cydweithio hefyd o fewn y clwstwr ar ddatblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, y Dyniaethau a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Ar y 26ain o Fehefin, cyfarfu'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth gyda Ceri Jones o Estyn i drafod y cynnydd a wnaed yn erbyn y 5 argymhelliad ac mae'n bleser gennyf adrodd fod y tîm wedi cydnabod y cynnydd cryf a wnaeth Mrs Eirian Jones a'r tîm gwneud tuag at yr argymhellion. O ganlyniad i'w gweledigaeth, ffocws a chymhelliant nid yw'r ysgol bellach mewn adolygiad Estyn.

Ar ran y corff llywodraethu, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach hoffwn ddiolch i'r tîm am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i wella'r ysgol. Fel canlyniad, gwelsom canlyniadau cryf TGAU. Am y flwyddyn cyntaf yn hanes yr ysgol cawsom ganlyniadau 'Lefel A', ac am ganlyniadau rhagorol! Da iawn wir i bob disgybl ac i bob aelod o'r tim.

Mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair iawn!



Kate Olsen (Cadeirydd y llywodraethwyr)

# Gair gan y Pennaeth: Mrs Eirian Jones

Annwyl riant/gofalwr



Braint a phleser yw cael cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i gymuned yr ysgol yn dilyn fy nhrydedd flwyddyn yma fel Pennaeth Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Mae blwyddyn academaidd 2022-2023 wedi bod yn llwyddiant mawr gyda canlyniadau arholiadau rhagorol a'r ysgol yn dod allan o adolygiad Estyn. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a hynod gydag agoriad ail hanner yr adeilad a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hyn gan gynnwys perfformiad ein cynhyrchiad ysgol cyntaf - Ysgol Roc. Credaf bod gweithgareddau'r ysgol wedi bod yn gyfoethog ac yn effeithiol a hoffwn ddiolch i holl gymuned yr ysgol am eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i barhau i weithio gyda mi a chynnig cefnogaeth ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Hoffwn longyfarch Blwyddyn 11 a'n Blwyddyn 13 gyntaf ar eu canlyniadau arbennig yn yr arholiadau allanol a gynhaliwyd yn Haf 2023. Y sgôr 9 wedi'i gapio ar gyfer blwyddyn 11 oedd 385, 10 pwynt yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Roedd canlyniadau yn y pynciau craidd yn rhagorol gyda 91% o ddysgwyr blwyddyn 11 yn ennill A* - C mewn Cymraeg Iaith, 81% yn Saesneg Iaith, 89% mewn Llenyddiaeth Saesneg a 65% mewn mathemateg rhifedd. Mae 44 o'r flwyddyn wedi dychwelyd i'r ysgol i barhau â'u hastudiaethau ôl-16 tra bod yr holl ddysgwyr eraill wedi mynd ymlaen i'r coleg neu wedi dechrau prentisiaethau. Dymunaf y gorau iddynt oll wrth iddynt gymryd y camau nesaf ar eu taith.

Roedd ein canlyniadau Lefel A hefyd yn rhagorol gyda 40% o'r holl raddau yn A* - A gydag 81% yn ennill A* - C. Llwyddodd pob dysgwr Blwyddyn 13, a ymgeisiodd i fynd i brifysgol, sicrhau lle yn eu dewis cyntaf. Mae'r holl ganlyniadau yn galonogol iawn ac yn dyst i waith caled pob dysgwr ac aelod o staff.

Yn dilyn arolwg Estyn ym mis Mai 2022, aeth yr ysgol i adolygiad gyda 5 argymhelliad. Lluniwyd Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) cadarn ac effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a pharhau â'r daith gwella ysgol. Roedd pob aelod o staff wedi ymgymryd yn llawn â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygiad yn y CDY a bu modd i ni ddangos cynnydd da iawn ar gyfer pob un o'r argymhellion. Roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu dod allan o adolygiad Estyn ym mis Gorffennaf 2023. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd yn sicrhau bod yr holl flaenoriaethau'n cael eu bodloni'n effeithiol ac mewn cyfnod mor fyr. Rydym bellach yn parhau â'r cynnydd a wnaed drwy wreiddio arfer dda a gweithredu ein gweledigaeth ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Ar ddydd Llun y 23ain o Ionawr symudom i mewn i ail hanner ein hadeilad. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar sut mae'r ysgol yn rhedeg o ddydd i ddydd gyda ffreutur a neuadd wych. Symudom o gael dau egwyl ac amser cinio i gael un amserlen gyda phob

dysgwr yn cael mynediad i'r ardal fawr y tu allan. Defnyddir y neuadd bob dydd ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau eraill megis gweithdai, siaradwyr allanol a pherfformiadau. Ym mis Mawrth gwelwyd ein cynhyrchiad ysgol cyntaf, Ysgol Roc, yn cael ei berfformio gan ddysgwyr o bob blwyddyn yn y neuadd. Mynychodd nifer fawr o rieni, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd y ddwy noson ac roedd y perfformiadau yn llwyddiant ysgubol. Defnyddiwyd y neuadd hefyd gan ysgolion cynradd y clwstwr i berfformio eu sioe Trysor Gwent ym mis Gorffennaf. Yn yr un mis cawsom ein heisteddfod ysgol wyneb yn wyneb gyntaf gyda phob dysgwr yn cymryd rhan ac yn cael hwyl.

**Ym mis Medi 2022 croesawyd nifer o staff newydd i'r ysgol;**

| | |
|---|---|
| Brandon Corbett | Gwyddoniaeth |
| Miles Hermann | Dyniaethau (ANG) |
| Megan Phillips | Celf a Dylunio a Thechnoleg (ANG) |
| Ffion Edmunds | Saesneg (ANG) |
| Megan Davies | Cymraeg (ANG) |
| Bethan Goldmsith | Cymraeg (RHG) |
| Adam Lavelle | Cynorthwy-ydd dosbarth |
| Aimee Henson | Cynorthwy-ydd dosbarth |

**Wedi ein gadael;**

| | |
|---|---|
| Rhys Morgan | Arweinydd Cerdd |
| Beth Jones | Arweinydd Cemeg |
| Beth Maldive-Davies | CALU |
| Alison Lowe | Saesneg |
| Owen Jones | Cynorthwy-ydd dosbarth |
| Amy Sefton | Sywddog arholiadau |

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus trwy gydol y flwyddyn. Rwy'n hyderus y gallwn barhau i weithio gyda'n gilydd er mwyn parhau â'r cynnydd rhagorol a wnaed ac edrychaf ymlaen at 2023-2024 llwyddiannus.

Cofion cynnes,
Eirian Jones (Pennaeth)

**Datganiad ar arholiadau allanol**
**TGAU** – Sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio – 385.19 (targed – 380)

**Canlyniadau Bl.11 2023**

| | |
|---|---|
| Interim Capped 9 Points Score | 385.19 |
| Average Points Literacy | 45.02 |
| Average Points Numeracy | 38.11 |
| Average Points Science | 38.68 |
| Average Points Skills | 41.66 |

Lefel 'A' - A*-A - 40%
A* - C - 81%

**Nosweithiau a Chyswllt Rhieni**
Roedd yn bleser gennym groesawu pob rhiant yn ôl i'r ysgol ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a chynhaliwyd Nosweithiau Rhieni ar gyfer blynyddoedd 7 i 13.

**Cefnogaeth ADY**
Mae Mrs Rebecca Chadwick yr ALENCo yn parhau i arwain yr ysgol wrth weithredu'r ddeddf ADY newydd cychwynwyd ym mis Ionawr 2022. Mae pob dysgwr o bob grŵp blwyddyn bellach wedi trosglwyddo i'r system.

**Mynediad ar gyfer Disgyblion Anabl**

Mae'r corff llywodraethol yn ystyriol o ofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA) 1995 a Deddf Anghenion Arbennig ac Anabledd (SENDA) 2005 yn ei weithredoedd a'i weithgareddau dyddiol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol ac (os byddant yn dymuno) mewn gweithgareddau fel clybiau ar ôl yr ysgol, digwyddiadau hamdden / chwaraeon ac ymweliadau addysgol. Mae pob agwedd ar hygyrchedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio a'r cynllun hygyrchedd.





**Gweithgareddau allgyrsiol**

7/09/22 - Talk the Talk bl 12

15/09/22 - Hyfforddiant e-sgol bl 12 a 13 /*e-sgol training for years 12 and 13*

22/09/22 - Taith Celfyddydau Mynegiannol i Lundain / *Expressive Arts excursion to London*

23/09/22 - Taith bl 7 Cymraeg a Celfyddydau Mynegiannol / *year 7 Welsh and Creative Arts excursion*

28/09/22 - Llangrannog bl7

28/09/22 - Fforwm rhieni/Parents' forum

1/10/22 - Taith Gogledd Cymru Cymraeg/*Welsh excursion to North Wales*

6/10/22 - Rookie rugby CA4

14/10/22 - Diwrnod Shw mae Su Mae

14/10/22 - Myfyrwyr blwyddyn 13 yn mynd i Ysgol Gynradd St Joe's/*Year 13 students go to St Joe's Primary School*

18/10/22 - Gweithdy Show Racism the Red Card blwyddyn 9/*Show Racism the Red Card workshop year 9*

19/10/22 - Prosiect Hwiangerddi bl 8/R*ap project year 8*

19/10/22 - Gweithdy Only Boys Aloud

20/10/22 - Taith blwyddyn 7 A Midsummer Night's Dream

21/10/22 - Diwrnod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth/*Show Racism the Red Card Day*

27/10/22 - Gweithdy Cyber Explorers bl7

28/10/22 - Taith Techniquest bl7

8/11/22 - Taith Saesneg a drama i weld Hamlet/*English and drama excursion to see Hamlet*

8/11/22 - Gweithdy Fearless

25/11/22 - Diwrnod Dathlu Cymreictod/*Celebrating Welshness Day*

30/11/22 - Fforwm rhieni/Parents' forum



8/12/22 - Diwrnod Siwmper Nadolig/*Christmas Jumper Day*

12/12/22 - Pythefnos Gwent Is Caredig

13/12/22 - gweithdy cyngor Eco “energy sparks”/*Eco committee workshop*

14/12/22 - seremoni gwobrwyo TGAU/*GCSE presentation ceremony*

15/12/22 - cyngerdd pontio rhithiwr/*virtual transition concert*

21/12/22 - noson carolau rhithiwr/*virtual carol service*

22/12/22 - cinio Nadolig/*Christmas lunch*

16-01-23 - sesiwn mentora Ieithoedd Rhyngwladol bl9/*yr 9 International Languages mentoring*

17-01-23 - gweithdy y Siartwyr/*The Chartists workshop*

19-01-23 - noson opsiynau bl9 rhithiwr/*year 9 options evening virtual*

25-01-23 - Diwrnod Santes Dwynwen/*Saint Dwynwen Day*

26-01-23 - gweithdy diogelwch wrth yrru bl12/*safety whilst driving workshop year 11*

27-01-23 - Diwrnod Cofio’r Holocaust/*Holocaust Memorial Day*

2-0-2-23 - Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus bl13/*Year 13 Public Speaking Competition*

2-02-23 - sesiwn Cyngor Ysgol gyda Senedd Cymru/*Senedd Cymru session with School Council*

8-02-23 - taith i stiwdio Urban Myths bl9/*excursion to Urban Myths studio year 9*

8-02-23 - fforwm rhieni/*parents’ forum*

9-02-23 - noson opsiynau blwyddyn 11 rhithiwr/*year 11 options evening virtual*

9-02-23 - gweithdy Piece by Piece/*Piece by Piece workshop*

13-02-23 - Seren bl9/*year 9 Seren*

15/02/23 - Cyngor Ysgol - Cymwysterau Cymru/*School Council - Qualifications Wales*

17/02/23 - bore coffi ADY/*ALN coffee morning*

28/02/23 - Taith Aushwitz bl 12 ac 13/*Aushwitz excursion years 12 and 13*

28/02/23 - Gyrfa Cymru bl9/*Year 9 Careers Wales*

28/02/23 - Gweithdy Catalyst/*Catalyst Workshop*

1/03/23 a 2/03/23 - Sioe Gerdd Ysgol Roc/*Ysgol Roc musical*

2/03/23 - Rookie Rugby

3/03/23 - Sioe Taith yr Iaith/*Taith yr Iaith production*

3/03/23 - taith seicoleg/*psychology excursion*

7/03/23 - gweithgareddau Seren/*Seren activities*


9/03/23 - taith Cymru, Ewrop a’r Byd i Pwll Mawr/*Wales, Europe and the World excursion to Big Pit*

9/03/23 - gweithdy Linking Languages

13/03/23 - bore ABCh Crucial Crew bl7/*year 7 Crucial Crew PSE morning*

16/03/23 - gweithdy Piece by Piece/*Piece by Piece workshop*

21/03/23 - ffair gyrfaoedd Moving On/*careers fair*



21/03/23 a 22/03/23 - twrnament rygbi Rosslyn Park

22/03/23 a 23/03/23 - gwyl rygbi SOHK/*rugby festival*

22/03/23 - gweithdy Theatr Ieuenctid Cenedlaethol/*National Youth Theatre workshop*

23/03/23 - Eisteddfod rhanbarth uwchradd

28-03-23 - rownd derfynol First Give/*First Give final*

18-04-23 - sesiwn gyrfaoedd gwyddonol bl7/*year 7 scientific careers session*

18-04-23 - ffair iechyd a gofal bl11/*year 11 health and social care fair*

25-04-23 - rownd cyn-derfynol siarad cyhoeddus yr Urdd/*the Urdd public speaking semi-final*

28-04-23 - taith bioleg bl12 ac 13/*year 12 and 13 biology excursion*

12-05-23 - gweithdy celfyddydau mynegiannol bl7/*year 7 expressive arts workshop*

17-05-23 - gweithdy graffiti/*graffiti workshop*

24-05-23 - taith Lion King bl8/*year 8 Lion King excursion*

8-06-23 - seremoni gadael blwyddyn 11/*year 11 leaving ceremony*

21-06-23 - taith Catalyst Cymru i Brifysgol Rhydychen/*Catalyst Cymru excursion to Oxford University*

22-06-23 - diwrnod a noson pontio/*transition day and evening*

23-06-23 - diwrnod Balchder - Zoe Eyles-Vaughan (bl11) a Ceirios Bebb (bl13) wedi ennill cystadleuaeth addurno bws Casnewydd/*Pride day - Zoe Eyles-Vaughan (bl11) a Ceirios Bebb (bl13) won a competition to decorate a Newport bus*



26-06-23 - anwytho bl11/*year 11 induction*

27-06-23 - gweithdy CSI bl7/*year 7 CSI workshop*

29-06-23 - diwrnod hybu Cymreictod/*celebrating Welshness day*

29-06-23 - pwyllgor Eco - cynhadledd newid hinsawdd/*Eco committee - climate change conference*

5-07-23 - sioe cynradd Trysor Gwent/*primary show Trysor Gwent*

5-07-23 - gweithdy dyniaethau blwyddyn 7 (S4C yn ffilmio)/*humanities workshop for year 7 (filming by S4C)*

5-07-23 - 6-07-23 - gweithdy Hip Hop (ITV yn ffilmio)/*Hip Hop workshop (filming by ITV)*

6-07-23 - gweithdy Catalyst Cymru gydag Ysgol Llangynwyd ac Ysgol Cwm Rhymni/*Catalyst Cymru workshop with Ysgol Llangynwyd and Ysgol Cwm Rhymni*



10-07-23 - taith bl12 Caerfaddon/*year 12 excursion to Bath*

10-07-23 - diwrnod ABCh bl10/*year 10 PSE day*

11-07-23 - diwrnod ABCh blwyddyn 9 a 12/*year 9 and 12 PSE day*

14-07-23 - Eisteddfod Ysgol/*School Eisteddfod*

17-07-23 - 21-07-23 - Wythnos Weithgareddau/*Activities Week*

17-07-23 -20-07-23 - gweithgareddau BAC CA3/*KS3 BAC activities*

17-07-23 -20-07-23 - rownderi llysoedd/*house rounders*

17-07-23 - taith blwyddyn 8 acwariwm Bryste/*year 8 excursion to the aquarium at Bristol*

19-07-23 - taith blwyddyn 9 Thorpe Park/*year 9 excursion to Thorpe Park*

20–07-23 - taith blwyddyn 7 acwariwm Bryste/*year 7 excursion to the aquarium at Bristol*

20-07-23 - taith blwyddyn 10 i Ynys Y Bari/*year 10 excursion to Barry Island*

20-07-23 - taith blwyddyn 9 i'r senedd/*year 9 excursion to the Senedd*

21-07-23 - Mabolgampau yn Stadiwm Casnewydd/*Sports Day at Newport Stadium*



**Gwaith Pontio**

Ein bwriad bob amser yw sicrhau bod pob disgybl yn dechrau ei amser yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn frwd i ddatblygu ymhellach ac i adeiladu ar y cynnydd y maent eisoes wedi'i wneud yn ystod eu hamser yn yr ysgol gynradd. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a'r ysgolion cynradd wedi sefydlu partneriaeth ragorol ac rydym yn gweithio'n agos iawn i rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau er mwyn sicrhau bod cam cychwynnol y disgyblion yn un hapus a llwyddiannus.

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn ystod 2022-2023:


- Dwy noson rhieni yn yr ysgol
- Cyfle i bob dysgwr bl.6 ymweld â'r ysgol ym mis Mehefin
- Cyfle i ddysgwyr bregus ymweld yn unigol
- Pob dysgwr bl.6 wedi cymryd ran yn 'Nhrysor Gwent' yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
- Arweinydd Lles a Chynnydd bl.7 a CADY wedi ymweld â phob ysgol Cynradd
- Trosglwyddo gwybodaeth academaidd a fugeiliol
- Trosglwyddo gwybodaeth Diogelu ac ADY

**Gwybodaeth am Bresenoldeb**

Rydym ni'n gwbl glir fod dysgwyr yn dysgu orau pan fyddant yn yr ysgol, ac yn ystod 2022-2023, yn dilyn arweiniad a chyngor gan yr Awdurdod Lleol, rhoddod yr ysgol y polisi presenoldeb clwstwr newydd ar waith. Mae'n amlwg bod y mwyafrif o'n dysgwyr eisiau bod yn yr ysgol, ac yn gwerthfawrogi'r strwythur a'r fframwaith cymdeithasol y mae'n ei ddarparu, yn enwedig ar ôl blynyddoedd y pandemig a'r cyfnodau clo. Ein presenoldeb am y flwyddyn oedd 88.6% sydd , er nad yw wedi cyrraedd cyfraddau cyn-bandemig, yn galonogol ac yn rhywbeth i ni adeiladu arno eleni. Byddwn yn parhau i weithio i wella ein cyfraddau presenoldeb a gweithio'n agos gyda rhieni, dysgwyr a'r Awdurdod Lleol i gyflawni hyn.

**Adnoddau ein safle**

Mae gan y safle gyfleusterau digonol ar gyfer nifer y disgyblion a'r staff presennol. Defnyddir Newport Norse ar gyfer glanhau a chynnal a chadw'r safle bob dydd.




**Cyfleusterau Toiledau**

Mae cyfleusterau tŷ bach ar gael ar bob llawr o'r ysgol, yn cynnwys tai bach i ddisgyblion, staff a thai bach i'r anabl. Mae'r rhain mewn cyflwr da ac yn cael eu glanhau bob dydd. Mae gan bob toiled gyfleuster dŵr poeth, sebon a sychu dwylo. Mae'r toiledau hyn yn cael eu glanhau'n rheolaidd gan lanhawyr Newport Norse. Maent yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan reolwr y safle.

**Ysgol Iach**

Mae pob dysgwr CA3 yn cael gwers CAD awr yr wythnos i gyfrannu at ddarpariaeth Iechyd a Lles ac ABCh ac wedi derbyn gwersi ar themâu priodol, e.e. bwyta'n iach, perthnasoedd iach a diogelwch ar-lein. Mae dysgwyr CA4 yn derbyn profiadau cyfoethog ar ffurf gweithdai achlysurol fel rhan o'n rhaglen lles.

Mae ffynhonnau dŵr ar gael ym mhob coridor o'r hen adeilad i aillenwi poteli dŵr.




**Bwyta'n Iach**

Rydym yn hybu bwyta'n iach trwy annog plant i fwyta byrbrydau iach yn ystod amser egwyl y bore, a chinio iach yn ystod amser cinio. Rydym ni'n addysgu plant am bwysigrwydd diet cytbwys trwy wersi CAD, gwyddoniaeth ac Arlwyo.

**Gwisg Ysgol**

Yn unol â canllawiau Llywodraeth Cymru gweithredwyd polisi gwisg ysgol newydd yn dilyn ymgynghoriad llawn gyda dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr. Rhan bwysig o hyn yw ein siop wisg ysgol, sydd ar gael i bawb yn ystod Nosweithiau Rhieni a dyddiadau penodol.

**Polisïau a gweithdrefnau**

Mae'r corff llywodraethu'n adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau trwy gydol y flwyddyn academaidd. Gellir gweld rhestr o holl bolisïau cyfredol yr ysgol ar ein gwefan yn [www.gwentiscoed.cymru](http://www.gwentiscoed.cymru)

**Cyfrwng yr ysgol**

Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig ar gyfer dysgwyr 11-18 oed. Mae'n cael ei chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd ac mae'n gwasanaethu Casnewydd a De Mynwy. Cymraeg yw iaith swyddogol Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a dyma gyfrwng dysgu ac arholi pob pwnc ac eithrio'r Saesneg. Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg fel pwnc a dim ond yn sefyll arholiadau iaith gyntaf yn Gymraeg. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn gynhwysol. O dan amgylchiadau arferol mae mynediad i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn agored i ddisgyblion 11+ oed o unrhyw allu a chydag anghenion arbennig.

**Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol a Chynllun Datblygu'r Ysgol**

**Blaenoriaethau Strategol 2022-2023**

**Blaenoriaeth 1**: Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn y medrau darllen, rhifedd a chymhwysedd digidol drwy ddatblygu darpariaeth gydlynol llwyddiannus.

**Blaenoriaeth 2**: Gwella agwedd ychydig o'r dysgwyr tuag at ddysgu mewn modd pwrpasol.

**Blaenoriaeth 3**: Sicrhau bod y ddarpariaeth yn herio, ymestyn ac yn cefnogi pob dysgwr er mwyn iddynt allu gwneud cynnydd effeithiol.

**Blaenoriaeth 4**: Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn gryf.

**Blaenoriaeth 5**: Cynyddu capasiti'r arweinyddiaeth yn fedrus er mwyn sicrhau bod arweinwyr ar draws yr ysgol yn gweithredu'n fwy strategol yn eu meysydd cyfrifoldeb.

**Aelodaeth y Corff Llywodraethol 2021-2022**

| Enw | Math o Lywodraethwr | Tymor yn dod i ben |
|---|---|---|
| Mrs Eirian Jones | Pennaeth | |
| Mrs Kate Olsen (C) | Rhiant/Parent | 27.04.2025 |
| Mrs Elin Maher | ALI | 31.08.2024 |
| Mr Steve Denton (IG) | Cymunedol | 15.05.2025 |
| Mr John Harris | ALI | 31.08.2024 |
| Mr Chris Chapman | ALI | 31.08.2024 |
| Mrs Ruth Harris | Cymunedol | 15.05.2025 |
| Mrs Nicola Crawley | Rhiant | 27.04.2025 |
| Mrs Jane Marshall | Rhiant | 27.04.2025 |
| Mr Geraint Davies | Cynrychiolydd athro | 01.11.2024 |
| Mrs Rachel Morgan | Cynrychiolydd staff | 14.03.2025 |
| Mrs Abigail Williams | Swyddog Cyswllt heb bleidais | |
| Mrs Sharanne Basham-Pyke | Cymunedol | 29.11.24 |
| Ms Elen Jones | Cymunedol | 11.05.2025 |
| Mr Andrew Phillips | Rhiant | 01.09.2027 |
| Mrs Jen Pollock | Rhiant | 01.01.2028 |
| Mr Owen Morse | Cynrychiolydd athro | 01.09.2027 |

**Treuliau Llywodraethwyr**

Yn ystod y flwyddyn 2021/2022, ni thalwyd treuliau i unrhyw lywodraethwyr am eu gwaith i'r ysgol, ac nid oedd costau teithio chwaith o ganlyniad i'w gweithgareddau ar ran yr ysgol.

**Ymgynghorydd her o'r GCA**:
Mike Davies Mai 2022-Gorffennaf 2023

**Cysylltu â ni**
Gallwch gysylltu â ni drwy:
Ffôn: 01633 851614
E-bost: gwent.iscoed@ysgolioncasnewydd.cymru
Gwefan: https://www.gwentiscoed.cymru/

Os dymunwch gopi o galendr yr ysgol neu'r prosbectws diweddaraf, cysylltwch â'r brif swyddfa neu edrychwch ar ein gwefan yn www.gwentiscoed.cymru.

**Dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion 2023 / 2024**

| Tymor | Dechrau | Dechrau Hanner Tymor | Gorffen Hanner Tymor | Diwedd Tymor |
|---|---|---|---|---|
| Hydref 2023 | 01.09.23 | 30.10.23 | 03.11.23 | 22.12.23 |
| Gwanwyn 2024 | 08.01.24 | 12.02.24 | 16.02.24 | 22.03.24 |
| Haf 2024 | 08.04.24 | 27.05.24 | 31.05.24 | 19.07.24 |

Bydd yr ysgol ar gau am chwech dydd o HMS rhwng Dydd Gwener 1 Medi a 19 Gorffennaf 2024. Mae'r dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd i'w trefnu gan yr ysgol.

**Gwyliau Banc**
Gwener y Groglith: 24.03.2024
Llun y Pasg: 01.04.24
Gwyl Fai: 06.05.24
Gwyl y Banc Gwanwyn: 27 May 2024